# Cronfa Cymunedol Liverpool Bay CCS Cyfyngedig

**Meini prawf cyllid: sefydliadau cymunedol a gwirfoddol**

Sefydliad Cymunedol Cymru

## Cronfa Cymunedol Liverpool Bay CCS Cyfyngedig

Sefydlwyd y Gronfa Budd Cymunedol gan Liverpool Bay CCS Cyfyngedig (LBCCS) i ddarparu buddsoddiad hirdymor mewn cymunedau sy'n cynnal seilwaith Dal a Storio Carbon Bae Lerpwl. Darperir y Gronfa mewn partneriaeth â'r Cheshire Community Foundation a Sefydliad Cymunedol Cymru, ac mae'n cydnabod y rôl bwysig y mae cymunedau lleol yn ei chwarae mewn cefnogi seilwaith sydd o bwys cenedlaethol ac mae'n ceisio sicrhau eu bod yn cael budd o fuddsoddiad ystyrlon a pharhaol.

Mae'r Gronfa Cymunedol wedi cael ei sefydlu fel rhaglen pedair blynedd i ddechrau gyda (2026–2029), ac mae'r canllaw hwn yn berthnasol i Flwyddyn Gyntaf y rhaglen.

Bydd y rhaglen yn cefnogi sefydliadau elusennol a rhai dim er elw sy'n cyflawni prosiectau sy'n creu buddion parhaol i bobl a lleoedd lleol drwy addysg, gwella'r amgylchedd a dathlu treftadaeth leol. Dros fywyd y rhaglen, mae'r Gronfa'n anelu at wneud yr hyn a ganlyn:

- cryfhau gwydnwch cymunedol drwy fentrau dan arweiniad lleol;
- hyrwyddo stiwardiaeth amgylcheddol a gwelliannau i fannau naturiol lleol;
- cynyddu cyfleoedd ar gyfer addysg, datblygu sgiliau a dysgu;
- dathlu, gwarchod a gwella diwylliant a threftadaeth leol; ac
- annog cyfranogiad cymunedol wrth greu etifeddiaeth barhaol i gymunedau sy'n cynnal seilwaith Liverpool Bay CCS.

## Grantiau sydd ar gael

Mae grantiau o hyd at £20,000 ar gael ar gyfer prosiectau sy'n darparu budd cymunedol clir o fewn Swydd Gaer neu Sir y Fflint. Rhaid i'r prosiectau sicrhau'r hyn a ganlyn:

- Eu bod yn cyflawni canlyniadau ar gyfer o leiaf un o'r tri phrif thema:
    - Prosiectau Addysgol
    - Edrych ar ôl yr amgylchedd
    - Dathlu Treftadaeth a Diwylliant Lleol
- Eu bod wedi'u cwblhau o fewn 12 mis ar ôl derbyn y grant;
- Bod ganddynt amserlen gyflawni glir;
- Eu bod yn cynnwys cyllideb realistig a chymesur;
- Eu bod yn arddangos sut y bydd yr arian yn cael ei wario yn ystod cyfnod y prosiect.
- Eu bod o fudd i bobl sy'n byw o fewn un o'r ardaloedd daearyddol a restrir uchod.

Disgwylir y bydd tua chwech neu saith grant yn cael eu rhoi bob blwyddyn o fewn Sir Gaer a chwech neu saith o fewn Sir y Fflint, er y bydd y nifer terfynol yn dibynnu ar faint ac ansawdd y ceisiadau a ddaw i law.

# Bydd y grantiau'n canolbwyntio ar y themâu isod

**Prosiectau Addysg**

Rydym yn croesawu prosiectau sy'n gwella cyfleoedd addysgol, yn cynyddu gwybodaeth a sgiliau, yn ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol neu'n cefnogi dysgu gydol oes o fewn cymunedau lleol. Gall y prosiectau gynnwys, er enghraifft:

- Clybiau dysgu a gwaith cartref ar ôl ysgol.
- Dysgu i oedolion, cynhwysiant digidol neu raglenni sgiliau sylfaenol.
- Gweithgareddau STEM, y celfyddydau, cerddoriaeth neu addysg greadigol.
- Gweithdai addysg gyrfaoedd, mentora neu gyflogadwyedd i bobl ifanc.
- Llyfrgelloedd cymunedol, rhaglenni darllen neu brosiectau llythrennedd.
- Addysg llythrennedd ariannol, llesiant neu sgiliau bywyd.
- Prosiectau dysgu sy'n pontio'r cenedlaethau sy'n dod â grwpiau oedran gwahanol ynghyd.

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn arddangos sut y bydd y prosiect yn creu canlyniadau addysgol ystyrlon ac yn darparu buddion parhaol i'r cyfranogwyr a'r gymuned ehangach.

**Edrych ar ôl yr Amgylchedd Lleol**

Rydym yn chwilio am brosiectau sy'n gwarchod, yn gwella neu'n dathlu'r amgylchedd naturiol ac yn gwella ansawdd mannau gwyrdd lleol i gymunedau. Gall y prosiectau gynnwys, er enghraifft:

- Creu neu wella gerddi, perllannau neu randiroedd cymunedol.
- Gwaith cadwraeth bywyd gwyllt, gwella bioamrywiaeth neu fentrau peillio.
- Gwaith cadwraeth afonydd, camlesi, coetiroedd neu barciau a gweithgareddau tacluso.
- Prosiectau sy'n gwella mynediad cyhoeddus i fannau gwyrdd, llwybrau cerdded neu lwybrau natur.
- Ymgyrchoedd ailgylchu cymunedol, lleihau gwastraff neu ymwybyddiaeth amgylcheddol.
- Prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion sy'n annog pobl leol i fonitro a gwarchod bywyd gwyllt.
- Rhaglenni gwirfoddoli yn yr awyr agored sy'n gwella mannau naturiol lleol.

Dylai'r ymgeiswyr egluro sut y bydd eu prosiect yn cyfrannu tuag at wella'r amgylchedd, bioamrywiaeth, ymgysylltiad cymunedol â natur neu fynediad gwell i fannau naturiol.

**Dathlu Treftadaeth a Diwylliant Lleol**

Rydym yn dymuno cefnogi prosiectau sy'n dathlu, gwarchod neu hyrwyddo treftadaeth, diwylliant a hunaniaeth unigryw cymunedau lleol. Gall y prosiectau gynnwys, er enghraifft:

- Arddangosfeydd treftadaeth gymunedol, gwyliau neu ddigwyddiadau diwylliannol.
- Prosiectau sy'n cofnodi a gwarchod hanes lleol drwy hanes ar lafar, archifau neu gasgliadau digidol.
- Prosiectau celfyddydau, crefftau, cerddoriaeth neu berfformio traddodiadol.
- Gweithgareddau sy'n dathlu diwylliannau a hunaniaethau amrywiol o fewn y gymuned leol.
- Prosiectau addysg treftadaeth i ysgolion neu grwpiau cymunedol.
- Mentrau amgueddfeydd neu gymdeithasau hanes lleol cymunedol.
- Prosiectau sy'n gwella'r mynediad i dreftadaeth leol drwy lwybrau cerdded, byrddau dadansoddi neu adnoddau digidol.

Dylai ceisiadau arddangos sut y bydd y prosiect yn cryfhau hunaniaeth cymunedol, yn cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol neu'n diogelu treftadaeth leol i genedlaethau'r dyfodol.

# Pwy sy'n cael gwneud cais?

Bydd ceisiadau'n cael eu derbyn gan sefydliadau sy'n gweithio o fewn Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae'n bosibl y rhoddir blaenoriaeth i waith sy'n cael ei gyflawni ar gyfer cymunedau yn y wardiau canlynol:

- Cei Connah a Glannau Dyfrdwy
- Penarlâg: Mancot
- Penarlâg: Aston
- Penarlâg: Ewloe
- Llaneurgain
- Y Fflint: Coleshill a Threlawnyd
- Brynffordd a Helygain
- Caerwys
- Chwitffordd




Rydym yn croesawu ceisiadau yn arbennig sy'n gwneud yr hyn a ganlyn:

- annog gweithio mewn partneriaeth;
- ymgysylltu â gwirfoddolwyr a phreswylwyr lleol;
- gwella mynediad at gyfleoedd ar gyfer cymunedau sydd wedi'u tangynrychioli;
- creu amgylchedd cynaliadwy neu asedau cymunedol;
- gadael etifeddiaeth gadarnhaol sy'n estyn y tu hwnt i'r cyfnod ariannu.

Dylai prosiectau ddechrau ar ôl derbyn y grant a chael eu cwblhau o fewn deuddeg mis. Cyn cyflwyno cais, dylai ymgeiswyr wneud yn siŵr eu bod yn:

- darllen y Meini Prawf Cyllido a'r safonau gofynnol hyn yn ofalus, cyn ymgeisio;
- dangos sut mae eu prosiect yn bodloni blaenoriaethau'r rhaglen;
- darparu cyllideb realistig ar gyfer y prosiect;
- cynnwys unrhyw wybodaeth ategol berthnasol cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Gall y cyllid gyfrannu tuag at gostau uniongyrchol cyflawni prosiectau cymwys.

Ni fydd y rhaglen yn cefnogi'r hyn a ganlyn:

- prosiectau sy'n hyrwyddo credoau gwleidyddol neu grefyddol;
- ceisiadau a wneir ar ran unigolion;
- gweithgareddau y bwriedir iddynt adeiladu cronfeydd wrth gefn neu warged sefydliadau;
- costau staffio parhaus lle nad oes cyllid cynaliadwy yn y dyfodol wedi'i nodi;
- cerbydau, eitemau trydanol neu gostau gweithredu parhaus eraill heb dystiolaeth y byddant yn hunangynhaliol ar ôl cyfnod y grant.
- gwaith a wnaed eisoes, neu a fydd wedi ei wneud erbyn amser rhoi'r grant.

# Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.
- Os ydych chi'n Gwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) sydd wedi'i gofrestru yn ystod y 18 mis diwethaf, nid ydych yn gymwys i wneud cais am y cyllid hwn. Os byddwch yn gwneud cais o fewn eich 18 mis cyntaf o fasnachu, bydd eich cais yn cael ei wrthod.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.




Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.